

Tasg 2

Byd yn ei le

Dewiswch aelodau o'r dosbarth i gymryd rhan y gwahanol gymeriadau o'r fforwm. Actiwch y ddeialog fel tasech chi mewn rhaglen drafod.

Yna, dewiswch aelodau o'r dosbarth i chwarae rôl gyfatebol i'r rhai a welir yn y fforwm. Felly, bydd angen dewis:

- Cyflwynydd sy'n cyflwyno'r rhaglen deledu a chadeirio'r drafodaeth;
- Gwleidydd sy'n cynrychioli'r awdurdodau;
- Gwleidydd sy'n aelod seneddol (Cynulliad, San Steffan, neu Ewropeaidd);
- Gwleidydd sy'n gynghorydd;
- A chyfrannwr o fyd diwydiant (Amaeth, Gweithgynhyrchu, ac yn y blaen).

Dewiswch hefyd aelodau o'r dosbarth sy'n mynd i gadw cofnodion o'r drafodaeth.

Cyn mynd ati i gynnal trafodaeth, dylai cyd-ddisgyblion drafod gyda'r actorion sut maen nhw'n mynd i ddelio â'r pwyntiau sy'n debygol o gael eu trafod.